**CAMAU GWEITHREDU**
**Enw'r cyfarfod:** Panel Craffu ar Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym
**Dyddiad:** 4 Tachwedd 2024 **Amser:** 1:30pm i 4pm
**Lleoliad:** Pencadlys Ardal Reoli Sirol Powys, Gorsaf Heddlu Llandrindod.

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Paul Saunders – Cynghorydd Annibynnol<br>Derek Turner – Cynghorydd Annibynnol<br>Selima Bahadur – Cynghorydd Annibynnol<br>Dave Hawksworth – Rhingyll (Dros Dro) - Cefnogaeth Strategol - Gweithrediadau Arbenigol<br>Miranda Bryant – Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, Heddlu Dyfed-Powys<br>Gwen James – Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, Heddlu Dyfed-Powys<br>Patricia Rafique – Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Paul Lewis – Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Donna Cronin – Pennaeth Sicrwydd - SCHTh |
| **Ymddiheuriadau:-** | Monique Craine – Cynghorydd Annibynnol<br>Rob Blowes – Cynghorydd Annibynnol<br>Amol Pandit – Cynghorydd Annibynnol<br>Tom Walters – Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth - SCHTh<br>Gruff Ifan – Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, SCHTh |
| | Gwyrdd = Camau gweithredu wedi'u cwblhau<br>Melyn = Camau gweithredu yn mynd rhagddynt<br>Nodwyd = Penderfyniadau wedi'u nodi |

| | Rhif Cam Gweithredu | Cam Gweithredu / Penderfyniadau Allweddol | Perchennog | Statws Gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|
| 04 | S&SUoFSP/04/06032024/A | **Cofnod Defnyddio Grym 2.**<br><br>Dangoswyd clip fideo defnyddio grym i'r panel.<br><br>**Senario**<br><br>Derbyniwyd gwybodaeth bod gwrthrych sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl wedi gwneud sylwadau ei fod am niweidio ei hun ac y gallai fod ag offer yn ei feddiant i hunan-niweidio. Aeth swyddogion ato ond nid oedd yr unigolyn am dderbyn cymorth gan swyddogion ac roedd yn cerdded i ffwrdd oddi wrthynt a gallai niweidio ei hun.<br><br>Cadwyd yr unigolyn yn y ddalfa i gynnal ymchwiliad stopio a chwilio i sicrhau nad oedd ganddo unrhyw wrthrychau y gallai eu defnyddio i niweidio ei hunan neu eraill. Trafododd swyddogion â'r unigolyn i weld a oedd yn dymuno siarad ag aelod o'r tîm argyfwng.<br><br>Darparodd PS Hawksworth gyd-destun cefndirol i'r panel.<br><br>**Pwerau/Polisi**<br><br>**Cyfraith gyffredin, adran 117 PACE**<br><br>**Barn y panel:** | PS Hawksworth | Wedi'i gwblhau | 18 Hydref 2024 - Diweddariad – Mae templed cryno syml o ffurflenni defnyddio grym wedi'i gynhyrchu ac yn barod i'w asesu gan y Panel Craffu Stopio a Chwilio, Defnyddio Grym yng nghyfarfod 4 Tachwedd 2024.<br><br>Diweddariad 26 Mai 2024 - Oddi wrth PS Hawksworth.<br><br>Mewn perthynas â symleiddio'r ffurflenni defnyddio grym nid yw'n bosibl ar hyn o bryd symleiddio'r ffurflenni'n awtomatig o fewn NICHE ac efallai y bydd yn rhaid derbyn hyn fel cyfyngiad ar y system. Fodd bynnag, bydd PS Hawksworth yn parhau i adolygu hyn a bydd yn symleiddio'r ffurflenni os yw'n bosibl gwneud hynny yn y dyfodol.<br><br>Diweddariad - O ran y deilliant, nid wyf wedi gallu canfod yr union ddeilliant mewn perthynas â'r digwyddiad hwn. Y deilliant tebygol mewn digwyddiadau o'r fath fyddai mynd â'r unigolyn i weld y Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl lleol. Mae hyn yn wirfoddol yn gyffredinol.<br><br>Diweddariad -<br><br>Mewn perthynas â'r digwyddiad penodol a adolygwyd a'r deilliant, |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cytunodd y panel fod y ffurflenni wedi'u cwblhau yn ymddangos yn gymhleth. Bydd PS Hawksworth yn gwirio a oes opsiwn i argraffu dim ond yr hyn sydd ei angen i'r panel ei weld.<br><br>Cytunodd y panel fod y swyddogion yn ceisio delio â'r sefyllfa orau y gallent. Credai'r panel nad oedd deilliant y digwyddiad hwn wedi'i gofnodi'n glir ar y ffurflen a holodd beth oedd canlyniad y digwyddiad hwn.<br><br>Gofynnwyd a oedd gan yr heddlu fynediad at y cofnodion meddygol. Eglurodd PS Hawksworth na fyddai swyddog yn cael gweld cofnodion meddygol.<br><br>**Cam gweithredu: Mewn perthynas â ffurflenni defnyddio grym mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei dyblygu ac felly bydd PS Hawksworth yn gwirio a yw'r heddlu yn gallu argraffu dim ond yr hyn y mae angen i'r panel craffu ei weld.**<br><br>**Cam gweithredu: Mae'r panel yn gofyn am adborth ynghylch beth oedd deilliant y sefyllfa o ran cofnod defnyddio grym 2.** | | | rhoddwyd digon o resymeg i'r grŵp hwn yn y cyfarfod ar 5 Mehefin 2024. |
| 04 | S&SUoFSP/05062024/04/A | **Cofnod Stopio a Chwilio 4.**<br><br>Dangosir clip fideo camera corff i'r panel. | PS Hawksworth | Wedi'i gwblhau | 18 Hydref 2024 Diweddariad - Cafwyd adborth. Mae gan swyddogion ddyletswydd i atal niwed i bobl ac mae ganddynt hefyd yr hawl i gymryd y camau |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Manylion y sail dros stopio a chwilio.**<br><br>Derbyniodd yr heddlu alwad ffôn brys gan unigolyn a roddodd wybod i'r heddlu fod ganddo gyllell er ei ddiogelwch ei hunan oherwydd ei fod yn meddwl bod pobl yn ei ddilyn.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Cafodd y swyddog sgwrs hir â’r unigolyn i’w asesu.<br><br>Chwiliwyd yr unigolyn o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Cytunodd y panel y dylai’r unigolyn fod wedi cael rhybudd cyn i’r swyddog edrych yn ei fag er mai tynnu’r gyllell oedd y peth cywir i’w wneud. Eglurodd PS Hawksworth mai gwirio’r gyllell oedd y peth cywir i'w wneud ond mae’r cyd-destun o ran sut yr aeth y swyddog ati i wneud hyn hefyd yn bwysig. Mae angen i'r swyddog feddwl pam ei fod yno yn gyntaf, i helpu unigolyn mewn argyfwng iechyd meddwl a chan fod y gyllell mewn bag dan glo, roedd yn eilradd i'r sefyllfa.<br><br>Cafwyd trafodaeth am iechyd meddwl a gweithwyr cymdeithasol. Pan fydd y prosiect gofal cywir person cywir yn mynd yn fyw byddai'r sefyllfa hon yn cael ei chyfeirio at y gwasanaeth iechyd meddwl.<br><br>Gofynnodd Tom Walters, o ystyried y ffactorau risg a bod problemau iechyd | | | angenrheidiol i sicrhau eu diogelwch personol wrth ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad.<br><br>Dylai swyddogion sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael cyn mynychu er mwyn sicrhau y gallant wneud asesiad risg gweithredol deinamig effeithiol. Dylai swyddogion sicrhau cyn belled ag y bo modd tra'n sicrhau diogelwch yr unigolyn, eu hunain, ac eraill eu bod yn dangos tosturi ac yn amddiffyn urddas y gwrthrych cyn belled ag y bo modd. Mae cyfathrebu effeithiol â'r unigolyn yn hanfodol i sicrhau hyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | meddwl wedi'u datgelu fe sylwon nhw wrth wylio'r clip fideo o'r camera corff fod y swyddog yn cerdded o flaen yr unigolyn, ond nid oedd yn ymddangos bod y swyddog arall y tu ôl i'r unigolyn. A fyddai hyn yn cael ei ystyried fel ffactor risg gyda'u hyfforddiant stopio a chwilio ac ati. Dywedodd PS D. Hawksworth mai penderfyniad gan y swyddog yw hwn yn seiliedig ar ei hyfforddiant.<br><br>Roedd y panel yn meddwl bod y swyddog wedi trin yr unigolyn yn dda iawn mewn sefyllfa anodd. Chwiliodd y swyddog am y gyllell ac wrth wneud hynny symudodd gwaith papur personol yr unigolyn allan o'r ffordd. Nid oedd y swyddog yn ymwthiol mewn perthynas ag eitemau personol yr unigolyn. Gofynnwyd ynglŷn â deilliant y sefyllfa. Dywedodd PS Hawksworth fod yr unigolyn wedi cael ei gludo adref, a chyflwynodd y swyddog hysbysiad unigolyn bregus, byddai'r gwasanaethau cymorth yn nodi hyn ac yn cysylltu â'r unigolyn.<br><br>**Cam gweithredu - PS Hawksworth i roi adborth i'r swyddog i feddwl am y sefyllfa, pam ei fod yno gyntaf i ddelio â sefyllfa iechyd meddwl ac roedd y gyllell yn eilradd i'r sefyllfa hon gan ei bod yn ddiogel dan glo.** | | | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | S&SUoFSP/05062024/06/A | **Cofnod Stopio a Chwilio 6.**<br><br>Dangoswyd y clip fideo camera corff i'r grŵp.<br><br>**Manylion y sail dros stopio a chwilio.**<br><br>Sylwodd swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu ar nifer o bobl mewn lôn. Ni wnaethant roi rheswm pam eu bod yn loetran o amgylch lôn gefn y ffordd hon ac felly hysbyswyd y swyddog a oedd ar batrôl yn lleol. Mae'r ardal dan sylw wedi'i nodi fel parth coch. Siaradodd y swyddog â phawb a oedd yn bresennol a dywedodd un unigolyn bod nodwydd ganddo ac ar ôl delio â'r unigolyn hwn ar sawl achlysur pan ddaethpwyd o hyd i heroin, cyffur dosbarth A, ac oherwydd sôn am nodwyddau, cadwyd yr unigolyn ar gyfer cynnal ymchwiliad adran 23 o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Yn gyntaf darganfuwyd llwy wedi'i phecynnu'n lân, ond nid oedd ganddo unrhyw gyffuriau yn ei feddiant.<br><br>Cwblhaodd y swyddog y camau GOWISLEY ac eglurodd y gallai gael copi o'r rhesymau dros stopio a chwilio pe byddai'n dymuno cael hynny.<br><br>**Barn y panel.**<br><br>Roedd y grŵp yn meddwl bod y swyddog yn gwrtais. Gofynnodd y panel am adborth ynghylch yr hyn sy'n barth coch. | PS Hawksworth | Wedi'i gwblhau | 18 Hydref 2024 Diweddariad - Gofynnodd PS Hawksworth am wybodaeth ar ystyr y term "parth coch" gan y swyddog, goruchwyliwr a'r arolygydd lleol. I grynhoi, cadarnhawyd bod hyn yn ymwneud â therm lleol lle bu cynnydd mewn gweithgarwch troseddol mewn ardal benodol. Arweiniodd hyn at ddefnyddio'r term "parth coch" i ddiffinio ardal lle'r oedd angen mwy o batrolau. Roedd y swyddog yn derbyn yn llwyr nad oedd hyn yn golygu bod unrhyw awdurdod cyffredinol i stopio a chwilio pobl yn yr ardal hon heb sail benodol. Derbyniodd y swyddog yn llwyr na ddylent fod wedi cyfeirio at y term "parth coch" gan ei fod yn rhoi'r farn bod awdurdod cyffredinol ar waith.<br><br>Ymddiheurodd y swyddogion am unrhyw ddryswch y mae hyn wedi'i achosi ac ni ddylid defnyddio'r term yn y dyfodol i osgoi unrhyw ddryswch pellach. |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Camau gweithredu:- PS Hawksworth i roi adborth i'r panel ar ystyr parth coch.** | | | |
| 7 | S&SUoFSP/05062024/07/A | **Cofnodion Defnyddio Grym.**<br><br>Codwyd mater o ran cofnodion defnyddio grym wedi'u golygu, y tro hwn nid oeddent yn cynnwys manylion am senario'r sefyllfa. Cytunodd y panel bod angen iddynt weld yr wybodaeth a nodwyd yn yr adran cyfiawnhau defnyddio grym ar y ffurflen er mwyn rhoi adborth ar y sefyllfa.<br><br>**Cam gweithredu: Miranda Bryant i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cofnodion a ddarperir yng nghyfarfod nesaf y Panel Craffu ar Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym.** | Miranda Bryant | Wedi'i gwblhau | Diweddariad ar 18 Hydref 2024. Mae PS Hawksworth wedi creu fformat newydd ar gyfer arddangos y cofnodion stopio a chwilio a defnyddio grym i'r panel. Mae hyn yn cynnwys sylwadau senario a goruchwyliwr. |
| 1 | S&SUoFSP/04112024/01/N | Dywedodd y cadeirydd wrth y panel, ar gyfer yr holl gofnodion stopio a chwilio sy'n cael eu hadolygu heddiw, mai'r sail ar gyfer dewis y cofnodion yw eu bod yn bobl sydd wedi bod yn destun stopio a chwilio o leiaf ddwywaith neu fwy. | Nodwyd | | |
| 2 | S&SUoFSP/04112024/02/N | Cytunodd y panel fod cynllun cyflwyno newydd y cofnodion stopio a chwilio a defnyddio grym yn gliriach ac yn haws i'w ddarllen. Roedd gwell sylwadau gan oruchwylwyr hefyd wedi'u cynnwys yn y fformat hwn.<br><br>Cytunodd y panel i barhau â'r fformat newydd hwn ac y byddent yn hap samplo'r cofnodion gwreiddiol i sicrhau | Nodwyd | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | bod tryloywder yn parhau ar gyfer cofnodion stopio a chwilio a defnyddio grym. | | | |
| 03 | S&SUoFSP/04112024/03/A | **Cofnod Stopio a Chwilio 1**<br><br>Cyflwynwyd clip fideo camera corff mewn perthynas â'r cofnod hwn i'r panel.<br><br>**Pŵer cyfreithiol ar gyfer chwilio**<br><br>A.23 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau<br><br>**Sail dros chwilio**<br><br>Daeth cudd-wybodaeth i law bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio i ddosbarthu cyffuriau. Mae gwybodaeth yn awgrymu bod y cerbyd wedi bod allan o ardal yr heddlu ers nifer o oriau a'i fod bellach ar y ffordd yn ôl adref. Credir bod gyrrwr a theithiwr yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau dosbarth A.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Holodd y panel a oedd ansawdd yr wybodaeth a dderbyniwyd wedi'i sicrhau oherwydd bod yr unigolyn a stopiwyd wedi egluro i'r swyddog ei fod wedi cael ei stopio sawl gwaith o'r blaen a'i fod yn credu mai ei gyn-bartner oedd yn darparu gwybodaeth am y cerbyd a oedd yn ymwneud â dosbarthu cyffuriau.Esboniodd PS Hawksworth fod | PS Hawksworth | Cam Gweithredu Newydd | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ansawdd yr wybodaeth a dderbynnir wedi'i wirio cyn ei defnyddio.<br><br>Cytunodd y panel fod yr unigolyn yn gydweithredol o ystyried ei fod wedi cael ei atal gymaint o weithiau cyn yr achlysur hwn.<br><br>Cytunodd y panel fod y swyddogion a gynhaliodd y weithred stopio a chwilio yn gwrtais ac yn broffesiynol.<br><br>**Cam gweithredu: PS Hawksworth i ddarparu adborth y panel i'r adran berthnasol i sicrhau bod safon uchel o sicrwydd ansawdd cudd-wybodaeth yn cael ei wirio a'i gadarnhau cyn ei ddefnyddio.** | | | |
| 04 | S&SUoFSP/04112024/04/A | **Cofnod Stopio a Chwilio 2**<br><br>Cyflwynwyd clip fideo y camera corff i'r panel. Esboniodd PS Hawksworth i'r panel nad oedd y camera corff wedi'i droi ymlaen ar unwaith ac felly ni chafodd yr ychydig funudau cyntaf eu recordio.<br><br>**Pŵer cyfreithiol ar gyfer chwilio**<br><br>Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.<br><br>**Sail dros chwilio**<br><br>Derbyniodd swyddogion adroddiad bod lladrad o siop yn Aberystwyth wedi digwydd. Mae yna wybodaeth i awgrymu bod yr unigolyn yn dwyn | PS Hawksworth | Cam Gweithredu Newydd | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | alcohol a dillad o siopau eraill hefyd. Mae'r unigolyn yn droseddwr hysbys. Rhoddwyd datrysiad cymunedol oedolyn iddo am fod ym meddiant canabis.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Holodd y panel pam nad oedd derbynneb ffurfiol ar gael ar adeg y chwiliad a gofynnwyd a oedd hwn yn arfer safonol. Dywedodd PS Hawksworth wrth y panel y gall unigolyn ofyn am gopi o’r cofnod ar-lein neu drwy ffonio 101.<br><br>Holodd y panel ynghylch ethnigrwydd yr unigolyn: nodir ei ethnigrwydd yn ôl diffiniad y swyddog fel Gwyn Gogledd Ewropeaidd a’r ethnigrwydd yn ôl ei hunan-ddiffiniad ei hun fel Gwyn Prydeinig ar y ffurflen, ond ar ôl gwylio’r clip fideo o’r camera corff nid oedd y panel yn credu, yn eu barn nhw, fod yr unigolyn yn un o'r ethnigrwydd hyn. Eglurodd PS Hawksworth fod yn rhaid i'r swyddog nodi'r hyn y mae'r unigolyn yn ei ddweud o dan yr adran hunan-ddiffiniad. Cytunodd y panel eu bod yn dymuno i'r wybodaeth hon gael ei gwirio.<br><br>**Gweithredu:- PS Hawksworth i wirio a yw'r wybodaeth ethnigrwydd ar gofnod Stopio a Chwilio 2 yn gywir.** | | | |
| 05 | S&SUoFSP/04112024/05/A | **Cofnod Stopio a Chwilio 3** | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflwynwyd clip fideo y camera corff i'r panel.<br><br>**Pŵer cyfreithiol ar gyfer chwilio**<br><br>Adran 23 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau<br><br>**Sail dros chwilio**<br><br>Mae ysgol wedi nodi bod merch yn dod i'r ysgol dan ddylanwad cyffuriau. Mae'r ferch wedi cyfaddef ei bod yn ysmygu canabis ar y ffordd i'r ysgol.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Gofynnodd y panel pam mai swyddog gwrywaidd a oedd yn cynnal y chwiliad ar ferch. Eglurodd PS Hawksworth fod swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu benywaidd yn bresennol, ond nad oedd ganddi'r pwerau i gynnal chwiliad am gyffuriau. Roedd rhiant y fyfyrwraig hefyd yn bresennol.<br><br>Gofynnodd y panel hefyd pan ddaeth yr alwad i mewn, a ddylid fod wedi nodi bod y fyfyrwraig yn ferch ac y dylid anfon swyddog benywaidd. Roedd y panel yn meddwl y dylid ystyried anfon swyddog benywaidd hyd yn oed os oedd hyn yn achosi ychydig o oedi. Roedd y panel hefyd o'r farn y gallai fod rheswm crefyddol neu ddiwylliannol pam na fyddai wedi bod yn dderbyniol i ddyn gynnal y chwiliad, er enghraifft gallai'r fyfyrwraig fod wedi bod yn | | | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Fwslim ac felly dim ond swyddog benywaidd a allai gynnal y chwiliad.<br><br>Roedd y panel yn meddwl bod y swyddog wedi delio â'r sefyllfa yn dda.<br><br>Mynegodd y panel bryder hefyd ynghylch faint o bobl oedd yn yr ystafell ar y pryd, roedd yn ymddangos yn ymwthiol iawn. Dylid bod wedi ystyried cyfrinachedd a phreifatrwydd ar gyfer y fyfyrwraig yn ystod y chwiliad. Roedd y panel o'r farn nad oedd angen cael cymaint o bobl yn yr ystafell yn ystod y weithred o stopio a chwilio. Holodd y panel a ellid bod wedi delio â'r sefyllfa hon heb ffonio'r heddlu. Gofynnodd y panel am wybodaeth mewn perthynas â pholisi'r ysgol o ran chwilio am ganabis.<br><br>**Cam gweithredu: Bydd PS Hawksworth yn holi'r swyddogion cyswllt ysgolion ynglŷn â beth yw polisi'r ysgol ar chwilio myfyrwyr am gyffuriau fel canabis. Adborth i'w roi i'r ysgol ynglŷn â'u trothwy, gan fod y panel yn cwestiynu a allent fod wedi delio â'r sefyllfa hon heb gynnwys yr heddlu.** | | | |
| 06 | S&SUoFSP/04112024/06A | **Cofnod Stopio a Chwilio 4**<br><br>Dangoswyd clip fideo camera corff i'r panel.<br><br>**Pŵer cyfreithiol ar gyfer chwilio** | PS Hawksworth | Cam Gweithredu Newydd | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau.<br><br>**Sail dros chwilio**<br><br>Tra ar batrôl symudol, gwelodd swyddogion ddau ddyn yn sefyll mewn lôn dywyll lle gwyddys bod cyffuriau'n cael eu delio. Wrth ddynesu cerddodd y dynion i ffwrdd yn syth oddi wrth y swyddogion. Roedd yn ymddangos bod y dynion wedi ymateb i fan yr heddlu ac ar ôl stopio un o'r dynion fe ganfuwyd bag yn cynnwys cocên.  Roedd yn ymddangos bod y dyn dan ddylanwad rhywbeth, er hyn ni allai'r swyddog arogli alcohol. Ymddangosai'r dyn yn bryderus, a’i ddwylo a’i draed yn simsan. Nid oedd unrhyw eiddo ar agor yn yr ardal ar y pryd ac nid oedd gan y dynion unrhyw reswm amlwg dros fod yn y cyffiniau yn ystod y nos. Roedd y swyddog yn amau bod gan yr unigolyn fwy o gyffuriau yn ei feddiant, ac fe gafodd ef ei chwilio ymhellach o dan adran 23 o’r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau.<br><br>Dywedodd y swyddog wrth y dyn y gallai gael copi o'r cofnod chwilio yng ngorsaf yr heddlu.  Dywedodd PS Hawksworth wrth y panel y gall unigolyn ofyn am gopi o’i gofnod stopio a chwilio ar-lein neu drwy ffonio 101, nid oes angen i unigolyn fynd i orsaf heddlu. Dywedodd PS Hawksworth wrth y panel y byddai’n adrodd yn ôl i swyddogion yn | | | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gyffredinol er mwyn sicrhau bod pob swyddog yn ymwybodol o hyn.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Cytunodd y panel â'r sail dros chwilio.<br><br>**Cam gweithredu: PS Hawksworth i sicrhau bod pob swyddog yn ymwybodol y gall unigolyn ofyn am gopi o'r cofnod stopio a chwilio naill ai drwy ofyn amdano ar-lein neu drwy ffonio 101.** | | | |
| 07 | S&SUoFSP/04112024/07/N | **Cofnod Stopio a Chwilio 5**<br><br>Dangoswyd clip fideo camera corff i'r panel.<br><br>**Pŵer cyfreithiol ar gyfer chwilio**<br><br>Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.<br><br>**Sail dros chwilio.**<br><br>Roedd unigolyn wedi ffonio'r heddlu a dweud ei bod yn agos at ddŵr a bod ganddi feddyliau drwg. Roedd pryder am ddiogelwch yr unigolyn, felly daethpwyd o hyd i'r unigolyn ac ar ôl sgwrs fe'i pherswadiwyd i fynd gyda'r swyddogion i'r ysbyty i weld y tîm argyfwng iechyd meddwl. Cynhaliwyd chwiliad i sicrhau nad oedd yr unigolyn yn cario unrhyw wrthrychau llafnog a allai niweidio ei hunan neu eraill cyn mynd i'r ysbyty. | Nodwyd | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Barn y panel**<br><br>Holodd y panel gan mai merch oedd hon, a ddylai swyddog benywaidd fod wedi mynychu'r digwyddiad hwn.<br><br>Cytunodd y panel fod y swyddog wedi delio â'r sefyllfa yn dda a bod yr unigolyn yn ymddangos yn gyfforddus gyda'r swyddogion.<br><br>Holodd y panel a oedd angen cynnal archwiliad ar rywun sy'n hunan-niweidio.  Eglurodd PS Hawksworth ei fod yn bolisi gan y GIG y dylid cynnal archwiliad ar bobl cyn mynd i mewn i'r ysbyty er mwyn sicrhau diogelwch staff y GIG. | | | |
| 08 | S&SUoFSP/04112024/08/N | Dywedodd y cadeirydd wrth y panel mai'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer dewis cofnodion y defnyddio rym oedd nad oedd unrhyw ethnigrwydd wedi'i gofnodi ar y ffurflen. | Nodwyd | | |
| 09 | S&SUoFSP/04112024/09/A | **Cofnod Defnyddio Grym 1**<br><br>Cyflwynwyd clip fideo y camera corff i'r panel.<br><br>**Crynodeb o'r digwyddiad**<br><br>Roedd swyddog ar batrôl pan adnabu unigolyn a oedd dan amodau mechnïaeth ac a oedd yn torri amodau. Arestiodd y swyddog yr unigolyn am dorri amodau mechnïaeth. Daeth yr | PS Hawksworth | Cam Gweithredu Newydd | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | unigolyn yn ymosodol a cheisiodd wrthsefyll yn ystod yr arestio.<br><br>Eglurodd PS Hawksworth i'r panel pan fydd rhywun yn torri amodau mechnïaeth y llys, mae hwn yn drosedd y gellir ei arestio ar unwaith.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Nododd y panel fod rhywedd ragdybiedig yr unigolyn wedi'i gofnodi ar y ffurflen fel 'arall'. Eglurodd PS Hawksworth y gallai hynny olygu nad yw'r swyddog wedi cwblhau'r adran hon, neu ei fod yn gamgymeriad. Cytunodd pawb y dylai fod yn faes ffurflen orfodol fel na all swyddogion symud ymlaen i'r adran nesaf heb gwblhau'r adran hon.<br><br>Cytunodd y panel fod angen i swyddogion fod yn barod bob amser oherwydd gall sefyllfaoedd newid mewn eiliad. Cytunodd y panel ei bod yn dda bod y swyddog yn adnabod yr unigolyn ar unwaith.<br><br>**Cam gweithredu: Bydd PS Hawksworth yn gwneud ymholiadau i weld a yw'r adran rhywedd ymddangosiadol ar y ffurflen yn adran orfodol.**<br><br>**Cam gweithredu: Ar gyfer Cofnod Defnyddio Grym 2 - PS Hawksworth i ddarganfod a gafodd y rhywedd 'arall' ei nodi'n gywir gan y swyddog** | | | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | S&SUoFSP/04112024/10/N | **Cofnod Defnyddio Grym 2**<br><br>Dangoswyd clip fideo camera corff i'r panel.<br><br>**Crynodeb o'r digwyddiad**<br><br>Cafodd swyddogion eu galw i sefyllfa lle roedd unigolyn wedi cymryd nifer o dabledi gyda'r bwriad o gymryd mwy o dabledi. Pan oedd swyddogion yn ceisio siarad â'r unigolyn, gwelwyd bod ganddo botyn gyda nifer o dabledi ac roedd wedi ceisio eu llyncu gan annog swyddogion i ddefnyddio grym rhesymol i atal yr unigolyn rhag niweidio ei hun.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Roedd y panel yn meddwl bod y swyddog yn amyneddgar iawn gyda'r unigolyn. Roedd aelodau'r panel o'r farn ei bod yn drist iawn i glywed am y sefyllfaoedd y mae rhai pobl ifanc ynddynt. | Nodwyd | | |
| 11 | S&SUoFSP/04112024/11/N | **Cofnod Defnyddio Grym 3**<br><br>Nid oes clip fideo camera corff ar gael gan fod y weithred stopio a chwilio wedi'i gynnal yn y ddalfa. Nid yw clipiau fideo camera corff wedi'u recordio yma oherwydd bod camerâu diogelwch yn y ddalfa.<br><br>**Crynodeb o'r digwyddiad**<br><br>Nodwyd bod unigolyn ar goll tra ar fechnïaeth ac roedd hefyd wedi torri | Nodwyd | | |



SWYDDOGOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Hysbysiad Gwarchod y Gymuned. Wrth gael ei arestio am dorri amodau Hysbysiad Gwarchod y Gymuned roedd wedi ymosod ar swyddogion yr heddlu.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Gofynnodd y panel pam nad oedd sylwadau'r goruchwyliwr ar gael ar gyfer y cofnod hwn.  Eglurodd PS Hawksworth fod sylwadau'r goruchwyliwr wedi'u cofnodi o dan ffurflen cofnodion y ddalfa. | | | |
| 12 | S&SUoFSP/04112024/12/A | **Cofnod Defnyddio Grym 4**<br><br>Nid oes clip fideo camera corff ar gael ar gyfer y cofnod hwn.  Mae'n ymddangos nad oedd y ffilm wedi'i dagio ac felly nid yw ar gael.<br><br>**Crynodeb o’r digwyddiad**<br><br>Mae unigolyn wedi mynychu cyfeiriad ei rieni gydag arf saethu ffug ac wedi bygwth eu lladd, gan arwain at wrthdaro corfforol yn digwydd yn y cyfeiriad.<br><br>**Barn y panel.**<br><br>Ni chafwyd unrhyw farn ynghylch hyn.<br><br>**Cam gweithredu:  Bydd PS Hawksworth yn rhoi nodyn atgoffa i'r** | PS Hawksworth | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **swyddog bod angen tagio clipiau fideo camera corff.** | | | |
| 13 | S&SUoFSP/04112024/13/N | **Cofnod Defnyddio Grym 5**<br><br>Cyflwynwyd clip fideo y camera corff i'r panel.<br><br>**Crynodeb o'r digwyddiad**<br><br>Roedd yr unigolyn yn feddw ac yn sarhaus wrth daflu eitemau at y swyddogion o ffenestr i fyny'r grisiau. Roedd yr unigolyn wedi ymosod ar swyddogion heddlu trwy gicio a thaflu pren a malurion atyn nhw gan daro'r swyddogion ar y coesau a'r frest.<br><br>**Barn y panel**<br><br>Roedd y panel o'r farn bod y swyddogion a oedd yn delio â'r sefyllfa yn amyneddgar iawn mewn amgylchedd peryglus. Nid oedd yr adeilad yn ddiogel ac felly nid oedd y swyddogion yn defnyddio taser oherwydd risg cwympo i'r unigolyn. | Nodwyd | | |
| 14 | S&SUoFP/04112024/14/N | **Cofnod Defnyddio Grym 6**<br><br>I'w gyflwyno i'r panel yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**Cam gweithredu: PS Hawksworth i gyflwyno cofnod 6 yng nghyfarfod nesaf y Panel Craffu ar Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym.** | Nodwyd | | |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:- i'w gadarnhau.**



SWYDDOGOL